



Diolch i chi i gyd

Diolch i bawb a gymerodd ran yn ein hymgyngoriad ar sut y bydd safoni ac apeliadau yn gweithio ar gyfer graddau TGAU, UG a Safon Uwch eleni, ar ôl canslo'r arholiadau oherwydd Covid-19.

Cawsom fwy na 4,000 o ymatebion i'n prif ddogfen a'n fersiwn i bobl ifanc. Rydym yn dadansoddi'r holl ymatebion nawr a byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad ar ein gwefan cyn diwedd mis Mehefin.

Edrychwch ar y manylion newydd

Rydym wedi diweddarau ein gwybodaeth i ganolfannau ynglŷn â chyflwyno graddau asesu canolfannau.

Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill, sy'n defnyddio cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrifau Her Sgiliau cymeradwy i Gymru yn unig ac a gynigir gan CBAC ac a reoleiddir gennym ni. Gallwch ddod o hyd i'r manylion ar ein [gwefan](#).



Rydym yma i gynnig cymorth a chyngor

Mae Covid yn dominyddu bywyd pob un ohonom, felly rydym wedi cynhyrchu nifer o flogiau ac erthyglau i ddarparu diweddariadau a chyngor er mwyn sicrhau nad yw canslo arholiadau yn cael effaith andwyol ar ddysgwyr.

Mae'r blogiau rydyn ni wedi'u cyhoeddi dros y mis diwethaf yn cynnwys:

- Meinir McLellan, [Swyddog Data ac Arholiadau](#) yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin Caerfyrddin, yn esbonio sut y mae canslo arholiadau wedi effeithio ar ei gwaith.

- David Finney tad Sam, disgybl blwyddyn 11 mewn ysgol gyfun yn ne Cymru, yn rhoi [safbwynt rhiant](#) o'r sefyllfa;
- Ein Prif Weithredwr Philip Blaker yn trafod y ffordd ymlaen ar gyfer dysgwyr [Blwyddyn 10](#), ac;
- Ein Pennaeth Safonau, Kerry Davies, yn egluro sut rydym eisoes yn edrych ymlaen i weld sut y bydd digwyddiadau eleni'n effeithio ar [arholiadau 2021](#).

Rydym hefyd wedi ychwanegu tudalen [Cymorth a Chyngor](#) i'r adran Covid ar ein gwefan lle gallwch ddod o hyd i ddolenni i sawl sefydliad.



Eich adborth ar gyfer dyfodol ein dysgwyr

Bydd canlyniadau ein hymarfer ymgynghori cyntaf Cymwys ar gyfer y Dyfodol, yn gofyn am eich barn ar y cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y cwricwlwm newydd, yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan ar 4 Mehefin.

Byddwch hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweminar pan fydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hesbonio ynghyd â'r camau nesaf yr ydym yn bwriadu eu cymryd. Mae'r lleoedd yn gyfyngedig, felly os hoffech ymuno â'r weminar am 11am ddydd Gwener, 5 Mehefin, cofrestrwch [yma](#).

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg

You can follow us on social media for the latest news on our work:
Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:



Copyright © 2020 Qualifications Wales All rights reserved.

Contact us:

comms@qualificationswales.org

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.